South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Polisi Amgylcheddol

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cyflogi 1,595 o Ymladdwyr Tân Gweithredol (939 Amser Llawn, 60 yn yr Ystafell Reoli a 656 ar y System Dyletswydd Rhan Amser) a 310 o Staff Cynorthwyol sydd wedi'u lleoli ar draws De Cymru, gyda'r Pencadlys ym Mharc Busnes Forest View, Llantrisant.

Fel sefydliad sy'n perfformio'n uchel, rydym yn parhau i gyflawni yn erbyn nifer o amcanion a thargedau cenedlaethol sydd wedi'u gosod o fewn Fframwaith Genedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i leihau nifer y tanau damweiniol a thanau bwriadol, a nifer y marwolaethau ac anafiadau sy'n cael eu hachosi gan dân a digwyddiadau eraill, drwy weithio'n rhagweithiol o fewn cymunedau De Cymru, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, i godi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd ynghylch diogelwch tân yn y cartref ac yn y gwaith. Rydym wedi ymrwymo i ymateb ar frys i ddigwyddiadau mawr a thrychinebus yn yr ardal, er mwyn lleihau marwolaethau ac anafiadau ac i leihau effeithiau corfforol ac ariannol unrhyw golled neu ddifrod o ganlyniad.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod fod gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd o ganlyniad i'n gweithgareddau wrth ddarparu gwasanaeth brys o safon i gyhoedd De Cymru. Byddwn yn ymdrechu i wella ansawdd bywyd y gymuned mewn ffordd nad yw'n niweidio'r amgylchedd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi ymrwymo i:

- Wella ei berfformiad o ran yr amgylchedd.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r deg Awdurdod Lleol i wella ansawdd bywyd ar gyfer pobl heddiw ac ar gyfer y cenedlaethau i ddod.
- Datblygu rhaglen cadwraeth egni a hyrwyddo cadwraeth egni ar bob lefel.
- Creu strategaeth rheoli gwastraff i leihau lefelau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu.
- Atal llygru ac osgoi difrod i'r amgylchedd drwy ein gweithredoedd neu weithrediadau.
- Cynnal y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer a chydymffurfio â hwy, o ran materion amgylcheddol sy'n berthnasol i'n gweithrediadau.
- Hyfforddi gweithwyr a hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ac ymroddiad tuag ato.

Bydd y polisi hwn yn cael ei arddangos ar Hysbysfyrddau, y Fewnrwyd a gwefan GTADC er mwyn hysbysu gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd a bydd ar gael i unrhyw barti sydd â diddordeb ar gais.

Caiff y polisi ei adolygu yn flynyddol neu yn amlach os bydd angen.

Arwyddwyd .....
Sally Murton
Prif Swyddog Cynorthwyol Cymorth Corfforaethol

Dyddiad ..04/12/09..
Rhifyn 04